

Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru Rhaglen TAR

**Bwletin Ymchwil
Rhifyn Arbennig
Ebrill 2023**

Croeso i rifyn arbennig o fwletin ymchwil Rhaglen TAR. Mae materion arbennig yn canolbwyntio ar amrywiaeth o bynciau sydd o ddiddordeb i athrawon ac addysgwyr athrawon. Yn y rhifyn hwn archwilir mentora mewn addysg athrawon.

Os ydych am rannu unrhyw ymchwil gyda'r bartneriaeth ehangach a/neu os oes gennych awgrymiadau ar gyfer materion arbennig yn y dyfodol, cysylltwch ag Alison Glover (alison.glover@open.ac.uk).

Yn y rhifyn arbennig hwn ar fentora



Rolau'r addysgwyr athrawon yn yr ysgol: Nododd astudiaeth hydredol chwe rôl – gwesteiwr; tywysydd i'r proffesiwn; hwyliwr/annogwr; cynllunydd; cynghorydd hyfforddi ac addysgwyr bartner.



Mentora a hyfforddiant mentora: Trosolwg o gyd-greu cwricwlwm hyfforddi mentoriaid y gellir ei ailadrodd a chynaliadwy i'w ddefnyddio ar draws cyd-destunau ysgol a phrifysgol.



Offer ar gyfer mentora mewn ysgolion: Archwilir cyfraniadau a chyfyngiadau offer technolegol, ymneilltuol ac epistemig / fframweithiau mentora i gefnogi'r broses mentor-mentora.



Effaith e-fentora: Mesurwyd gallu darpar athrawon i ddadansoddi gwersi drwy asesiad penagored o fideo gwrs cyn ac ar ôl ymyrraeth.



Sgyrsiau mentora: Mae sgyrsiau mentora yn werthfawr ar gyfer arferion a gwybodaeth athrawon dosbarth 'gweladwy', sydd â goblygiadau ar gyfer datblygiad proffesiynol mentoriaid.



Lles a gwydnwch athrawon dan hyfforddiant: Helpu athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu dealltwriaeth sut i gefnogi eu lles eu hunain a allai effeithio ymhellach ar hyrwyddo lles myfyrwyr ac o bosibl liniaru problemau gyda chyfraddau gadael athrawon newydd.



Dadansoddi rolau mentor a mentora: Roedd y canfyddiadau'n dangos bod mentoriaid yn rheoli trwy rôl mentor gweithredol, uniongyrchol ac amrywiol.



CollectivED: Yn cynnwys cyfres papur gwaith sy'n canolbwyntio ar ymarfer, polisi ac ymchwil ar hyfforddi, mentora a datblygiad proffesiynol.



TEAN: Mae gan y Teacher Education Advancement Network gyfnodolyn ar-lein am ddim sydd â'r bwriad o ddatblygu ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd ym maes addysg athrawon.



Rolau'r addysgwyr athrawon ysgol

Gall y bartneriaeth rhwng addysgwyr athrawon ysgol ac athrawon myfyrwyr weithredu ar wahanol lefelau a gyda symiau anwadal o gefnogaeth. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o achos archwiliol o ran sut mae mentoriaid yn hunan-adnabod. Defnyddiwyd ffynonellau data lluosog a gasglwyd dros gyfnod o 56 wythnos gan 11 o athrawon a 123 o athrawon myfyrwyr.

Roedd chwe rôl yr addysgwyr athrawon a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys: gwesteigr, tywysydd i'r proffesiwn, anogwr, cynllunydd, cynghorydd cyfarwyddo, a phartner addysgu. Nid yw'r gwahanol rolau addysgwyr athrawon ysgol yn hunan-adnabod a pherfformio yn llinol.

'Efallai na fydd addysgwyr athrawon yn yr ysgol mewn rôl gwesteigr bob amser yn cynorthwyo ymgeiswyr athrawon i ddatblygu perthynas â myfyriwr.'

Canfu addysgwyr athrawon ysgol eu hunain yn perfformio mwy nag un rôl, gan symud yn hylifol rhwng rolau, ac yn teimlo bod yr angen i "aros" mewn un neu fwy o rolau yn dibynnu ar anghenion eu dosbarth, eu hunain, neu'r athro myfyrwyr. Fodd bynnag, roedd rhai mentoriaid yn yr ysgol yn ei chael hi'n anodd symud y tu hwnt i'r rôl anogwr. Mae'n bwysig i addysgwyr athrawon ysgol hunan-adnabod yn y rolau fel y gallant gydnabod ble maen nhw, beth maen nhw'n ei wneud, ac i ba raddau maen nhw'n ymgysylltu ag athrawon myfyrwyr mewn cyfleoedd sy'n caniatáu cymryd rhan, ymgysylltu, a thwf fel athrawon sy'n datblygu.

Rakes, L., Powell, R.L., Blevins, B. and Giordano, V. (2022) 'Navigating the roles of the school-based Teacher Educator: Mentor teachers' and teacher candidates' perceptions', *The Educational Forum*, doi.org/10.1080/00131725.2022.2053019



Hyfforddiant mentora a mentora

Mae'r papur hwn yn rhoi adroddiad o ddatblygiad rhaglen hyfforddi mentoriaid. Datblygwyd yr hyfforddiant dros gyfnod o flwyddyn ac roedd yn cynnwys 32 o fentoriaid rhagorol fel cydgrewyr/cyfranogwyr pum o fodiwlau theori i ymarfer, gydag ymholiad athro yn fframwaith trosfwaol. Roedd y data a gasglwyd yn cynnwys myfyrdodau, arteffactau ac arolygon diwedd hyfforddi.

Mae priodoleddau mentor, a ymddangosodd ar draws y myfyrdod cychwynnol hwn, yn cyfrif fel rhai o ganfyddiadau mwyaf arwyddocaol y prosiect. Daeth set o themâu i'r amlwg sy'n cyfeirio at y nodweddion y mae mentor 'da' yn ymgysylltu â nhw: darparwr cefnogaeth emosiynol; amser i wrando, amynedd, sy'n agored i syniadau newydd, yn rhoi adborth di-farnol; yn

'Mae mentor da yn annog cymryd risg ac yn dal disgwyliadau uchel ar gyfer mentora.'

meddu ar y wybodaeth a'r arbenigedd i arwain a sgaffaldu dysgu'r mentora.

Amlygodd ymatebion cyfranogwyr fod mentora effeithiol yn golygu peidio ag osgoi sgysiau anodd. Mae mentoriaid effeithiol hefyd yn myfyrio ar eu harferion addysgu a mentora eu hunain, a sut i hwyluso myfyrdod gyda'u mentoreion. Maen nhw hefyd yn ymwybodol o fodolau cyd-addysgu gwahanol a phryd i'w cyflogi.

Er yr ymdrechion i gynnwys mentoriaid yn bartneriaid cyfartal wrth greu a gweithredu'r hyfforddiant, roedd mentoriaid yn cael trafferth i wneud y symudiad mewn hunaniaeth hwnnw. Dyfalar efallai mai dyma'r diwygiad pwysicaf sydd ei angen - bod yn rhaid ffurfioli rolau a gwobrau i gefnogi'r gydnabyddiaeth o le sylfaenol addysgwyr athrawon mewn ysgolion yn y gwaith hwn.

Parker, A.K., Zenkov, K. and Glaser, H. (2021) 'Preparing school-based Teacher Educators: Mentor teachers' perceptions of mentoring and mentor training', *Peabody Journal of Education*, 96(1), pp. 65-75.



Offer ar gyfer mentora mewn ysgolion

Dyma adolygiad o lenyddiaeth sy'n archwilio'r mathau o offer a ddefnyddir wrth fentora darpar athrawon a'u heffaith bosibl ar ddatblygiad proffesiynol athrawon myfyrwyr. Cafodd 30 o astudiaethau eu cynnwys yn yr adolygiad. Mae nifer fechan o gyfraniadau a chyfyngiadau pob offeryn wedi'u cynnwys yma.

Roedd offer technolegol yn cynnwys efelychiadau rhithwir, fideo a 'byg yn y glust'. Er enghraifft, mae defnyddio fideo yn helpu athrawon dan hyfforddiant i adlewyrchu a gwerthuso mewn perthynas â chymwyseddau addysgu. Fodd bynnag, gall golwg gyfyngedig ar yr ystafell ddosbarth fod yn rhwystr. Roedd offer ymneilltuol yn cynnwys naratifau, arsylwi â ffocks, canllawiau/templodi trafod eraill. Er enghraifft, gall defnyddio templed trafod roi sylw

'Dim ond llond llaw o astudiaethau sydd wedi datblygu dulliau a fframweithiau cyfannol sy'n gysylltiedig â mentora.'

uniongyrchol i ddysgu disgyblion, ond gall fod yn heriol i rai mentoriaid arloesi eu hymarfer.

Datblygodd offer epistemig / fframweithiau mentora i strwythuro'r broses fentora gyfan megis portffolios electronig gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio cymwyseddau ar gyfer strwythur. Mae'r rhain yn darparu cynllun clir i asesu mentoreion, ond gall mentoriaid feddu ar ganfyddiadau amrywiol o fentora.

Yr her ar gyfer y maes ymarfer ac ymchwil yw adeiladu ar y wybodaeth, h.y. cyfrannu at ddata sydd wedi cronni a meddwl yn gyfannol wrth ddatblygu offer mentora, yn ogystal ag ystyried dimensiynau cyd-destunol a chreu strwythurau mentora meddylgar, cyfannol.

Nesje, K. and Lejonberg, E. (2021) 'Tools for the school-based mentoring of pre-service teachers: A scoping review', *Teaching and Teacher Education*, 111, doi.org/10.1016/j.tate.2021.103609



Effaith e-fentora

Daeth e-fentora i'r amlwg fel modd o oresgyn anawsterau wrth ddarparu mentora wyneb yn wyneb. Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys dau fentor oedd yn gweithio gyda 12 o athrawon mathemateg oedd â dim mwy na phum mlynedd o brofiad addysgu. Dechreuodd cyfarfod wyneb yn wyneb y broses fentora, ac yna cyfweiliadau unigol i benderfynu ar anghenion proffesiynol. Am chwe wythnos cafodd y broses e-fentora ei chynnal mewn grwpiau, gyda'r pythefnos olaf yn unigol.

Gwelliant allweddol yn dilyn yr ymyrraeth oedd ymhelaethu ar arsylwadau o wers wedi'i recordio – gyda'r cyfranogwyr yn darparu ymatebion achosol rhwng gweithgareddau'r athro a dysgu disgyblion, yn hytrach nag ymateb disgrifiadol yn unig cyn y rhaglen fentora. Hefyd, wedi hynny roedd athrawon yn canolbwyntio ar weithredoedd penodol rhwng athrawon a disgyblion yn hytrach

'[...] Gall dulliau megis e-fentora mewn addysgu mathemateg fod yn effeithiol ar gyfer gwella sgiliau dadansoddi gwersi athrawon.'

na gwneud sylwadau haniaethol - gwnaed cysylltiadau â thystiolaeth.

Dangosodd yr astudiaeth fod presenoldeb rhyngweithio cryf rhwng mentor a mentoraï yn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon dibrofiad o ran sgiliau dadansoddi gwersi, gan ystyried natur yr athro a'i anghenion ei hun, yn ogystal â dileu cyfyngiadau amser a lle a allai greu rhwystrau i fentora wyneb yn wyneb.

Fodd bynnag, yn yr astudiaeth hon, mae'r fframwaith dadansoddiad gwersi yn gyfyngedig i archwilio sgiliau dadansoddi gwersi y cyfranogwyr, gellir ymchwilio'r gwelliant mewn sgiliau sylwi athrawon.

Güler, M. and Çelik, D. (2022) 'Supporting novice mathematics teachers: The impact of e-mentoring on lesson analysis skills', *Teaching and Teacher Education*, 113, doi.org/10.1016/j.tate.2022.103658



Sgyrsiau mentora

Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddull astudiaeth achos lluosog o gynnal sgyrsiau wrth i wersi penodol gael eu datblygu a'u dysgu gan fyfyrwyr eu trafod. Pwrpas yr ymchwil oedd dadansoddi sgyrsiau mentora er mwyn gwneud gwybodaeth athrawon goruchwyllo yn weladwy ar gyfer mentora, yn seiliedig ar gategorïau sy'n amlwg yn y sgyrsiau.

Canfyddiad pwysig o'r astudiaeth yw gwerth sgyrsiau mentora ar gyfer 'gwneud yn weladwy' arferion a gwybodaeth athrawon dosbarth i'r athro dan hyfforddiant, sydd â goblygiadau i'r datblygiad proffesiynol y mentor.

Digwyddodd tri phrif gategori sgwrs ym mhob pâr: modelwyr ymarfer; cefnogwyr myfyrdod a darparwyr adborth.

'Mae myfyrio yn gyswllt pwysig rhwng sut mae athrawon sy'n goruchwyllo yn siarad am ymarfer ac ymhellach, sut maen nhw'n ei fodelu.'

Mabwysiadodd pedwar o'r pum mentor ymagwedd faestro at fentora. Roedd yr athrawon sy'n cymryd rhan yn rhoi awgrymiadau penodol ar ymarfer addysgu ei athro rhagwasanaeth, oedd yn aml yn amlygu'r angen am ddeialog estynedig gyda'r athraw rhagwasanaeth. Mewn geiriau eraill, roedd modelu neu ganllawiau eglur neu benodol yn ymddangos i rwystro ar y sgwrs fentora yn hytrach na meithrin y mathau o arfer cydweithredol a chyd-greu y mae addysg athrawon yn eu hannog.

Roedd yr un mentor a weithredodd ddull mwy myfyriol yn cefnogi'r athrawon dan hyfforddiant i ystyried yr hyn y gellid ei gyflawni yn y wers a chanolbwyntio ar ddysgu myfyrrwyr, gan ddefnyddio sgaffaldiau cynnil a chwestiynu.

Nielsen, W., Tindall-Ford, S. and Sheridan, L. (2022) 'Mentoring conversations in preservice teacher supervision: knowledge for mentoring in categories of participation', *Mentoring & Tutoring: Partnership in Learning*, 30(1), pp. 38-64.



Lles a gwydnwch athrawon myfyrrwyr

Mae lles a gwydnwch athrawon dan hyfforddiant yn bryder sylweddol am eu gweithrediad presennol ac am eu hymgysylltiad parhaus â'r proffesiwn addysgu. Ceisiodd yr astudiaeth hon ddatblygu disgrifyddion gwaelodlin ar gyfer patrymau gwydnwch a lles, ynghyd â ffactorau allweddol a oedd yn hyrwyddo lles mewn prifysgol.

Roedd canfyddiadau'r arolwg yn cyd-fynd â'r llenyddiaeth ynghylch canfyddiadau myfyrrwyr o les, gan adrodd am y straen parhaus a brofwyd. Ymhlith y rhwystrau i les a nodwyd roedd gorbryder cyffredinol, straen neu iselder; cydbwysedd llwyth gwaith/bywyd-gwaith, pryder am berfformiad academiaidd, gorbryder am ymarfer.

'Mae deall ffynonellau straen a gwydnwch yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â'r mater yn effeithiol.'

Roedd myfyrrwyr ar y cyfan yn fodlon â'u lles, er i'w boddhad ddirywio wrth iddyn nhw agosáu at ddiwedd eu cwrs. Dywedodd sawl un y byddai dysgu strategaethau ymdopi yn ddefnyddiol i liniaru'r straen llwyth gwaith. O ran cefnogaeth i les, nodwyd cysylltiadau cymdeithasol gan gynnwys teulu, ffrindiau a chyfoedion fel y rhai mwyaf defnyddiol.

Mae'n hanfodol amddiffyn lles athrawon dan hyfforddiant a'u hannog i ddatblygu ffyrdd cadarnhaol o gynnal eu hiechyd corfforol a meddyliol. Rhaid i raglenni addysg athrawon ddarparu'r rhaglenni, y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer cefnogaeth.

Squires, V., Walker, K. and Spurr, S. (2022) 'Understanding self-perceptions of wellbeing and resilience of preservice teachers', *Teaching and Teacher Education*, 118, doi.org/10.1016/j.tate.2022.103828



Dadansoddi rolau mentor a mentorai

Edrychodd y prosiect ymchwil ansoddol hwn ar beth sy'n nodweddu rôl y mentor mewn deialog mentora yn Norwy, a sut mae gwahanol rolau mentoriaid yn dylanwadu ar rôl y mentorai. Darparodd deg deialog mentora a recordiwyd y data, a pharhaodd pob deialog rhwng 10 a 65 munud.

Nodwyd pob datganiad gan ddefnyddio ystod o gategoriâu yn seiliedig ar y cysyniad o fframio (sut mae'r cyfathrebu'n cael ei reoli rhwng y trosglwyddydd a'r caffaelwr). Er enghraifft, lefel cyfarwydddeb y mentor, p'un a oeddent yn defnyddio sgiliau cyfarwyddo neu anghyfarwyddiadol. Defnyddiwyd chwe chategori ar gyfer hyn: rhoi cyngor, barn, gwybodaeth, gwrando, cwestiynu, a chrynhoi. Cyfrifwyd amser siarad mentor hefyd. Cofnodwyd a oedd y mentor yn weithgar - p'un a oeddent wedi cyflwyno thema

'[...] Y mentor yw'r un sy'n creu'r gofod i'r mentorai ryngweithio a chymryd rhan yn y cyfathrebu.'


neu wedi ymateb i thema a gyflwynwyd iddynt. Adnabyddwyd tri grŵp o ddeialogau, gyda mentoriaid yn rheoli trwy fentor gweithredol, rôl mentor uniongyrchol ac amrywiol, a oedd yn ei dro wedi rhoi arwydd o rôl y mentorai. Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar y ffaith bod y mentor yn rheoli'r cyfathrebu wrth fentora ac yn talu llai o sylw yn y dadansoddiad i'r rôl mentorai a sut mae'r rolau'n dylanwadu ar ei gilydd.

Gallai addysg fentora sy'n cryfhau'r gwerth fframio allanol amharu ar le'r mentoriaid i reoli'r cyfathrebu ac felly, tanseilio eu hannibyniaeth, tra byddai addysg fentora sy'n cynnal y gwerth fframio allanol gwan yn cefnogi ymreolaeth y mentoriaid.

Merket, M. (2022) 'An analysis of mentor and mentee roles in a pre-service teacher education program: a Norwegian perspective on the future mentor role', *Mentoring & Tutoring: Partnership in Learning*, 30(5), pp. 524-550.

CollectivED

Mae yna [gyfres papur gwaith](#) sy'n canolbwyntio ar ymarfer, polisi ac ymchwil ar hyfforddi, mentora a datblygiad proffesiynol.



TEAN



Mae'r [Teacher Education Advancement Network Journal](#) yn gyfnodolyn ar-lein am ddim sydd wedi'i anelu at addysgwyr athrawon, gyda'r bwriad o hyrwyddo ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd ym maes addysg athrawon. Cyhoeddir y cyfnodolyn gan y Teacher Education Advancement Network (TEAN) ac mae wedi'i gynllunio i fod yn gyfnodolyn y mae ei gyfranwyr yn cynnig esiamplau ac ysbrydoliaeth o'u hymarfer a'u gweithgarwch eu hunain